Rhif: WG32791

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – newidiadau i'r rheoliadau a'r cod ymarfer yn ymwneud â llety diogel a lleoliadau plant y tu allan i'r ardal

Dyddiad cyhoeddi: 04 Medi 2017
Cam gweithredu: Ymatebion erbyn 27 Tachwedd 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar newidiadau i Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion 2015, Rheoliadau Llety Diogel (Cymru) 2015, a Rhan 6 o'r Cod Ymarfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya.

**Sut i ymateb**

I ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch y ffurflen ymateb a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

Mae'r ddogfen ymgynghori, y rheoliadau drafft a'r cod ymarfer ar gael yn: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/llety-diogel-lleoliadau-plant-y-tu-allan-ir-ardal

**Manylion cysylltu**

Rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: plantsynderbyngofal@llyw.cymru

Ffôn: 03000 253049

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr

unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth

**Beth yw'r ymgynghoriad hwn?**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn chi ar y canlynol:

- Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, mewn perthynas â hysbysiadau am leoliadau mewn argyfwng y tu allan i'r ardal
- Rheoliadau Llety Diogel (Cymru) 2015, mewn perthynas â phlant wedi'u lleoli yn yr Alban
- Rhan 6 o'r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya).

**Pa newidiadau rydyn ni'n bwriadu eu cynnig?**

<u>Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015</u>

Mae'r newidiadau a gynigir i'r rheoliadau hyn yn ymwneud â threfniadau hysbysu awdurdod lleol pan mae plentyn sy'n derbyn gofal o sir arall yn cael ei leoli yn ei ardal (naill ai mewn gofal maeth neu gartref plant) mewn argyfwng.

Ar hyn o bryd, os caiff plentyn ei leoli y tu allan i'r sir mewn argyfwng, rhaid i'r awdurdod sy'n lleoli roi gwybod i'r awdurdod dan sylw (yng Nghymru neu, yn achos lleoliad trawsffiniol, yn Lloegr) ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gychwyn. Ystyr hysbysu yn yr achos hwn yw bod rhaid i'r awdurdod sy'n lleoli ddarparu manylion o'i asesiad o anghenion y plentyn a'r rhesymau pam mai'r lleoliad a ddewiswyd yw'r ffordd fwyaf addas o ddiwallu anghenion y plentyn, a chopi o gynllun gofal a chymorth y plentyn. Hefyd, rhaid i'r awdurdod sy'n lleoli atgyfeirio achos y plentyn at banel cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib wedi'r lleoliad, a dim hwyrach na 25 diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gychwyn.

Mae awdurdodau lleol a'r heddlu wedi mynegi pryderon bod y cyfnod hysbysu pum diwrnod yn ymddangos yn rhy hir, yn enwedig gan fod llawer o blant sy'n cael eu lleoli mewn argyfwng yn arbennig o fregus ac weithiau mewn cryn berygl o gamfanteisio rhywiol neu fynd ar goll o ofal.

Byddai'r newid arfaethedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod hysbysu awdurdod yr ardal o fewn 24 awr i leoli plentyn mewn argyfwng. Ystyr hysbysiad yn yr achos hwn yw bod rhaid i'r awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- enw a dyddiad geni'r plentyn
- a yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol o'i wirfodd neu dan orchymyn gofal neu orchymyn gofal interim
- unrhyw orchmynion gyfreithiol eraill a wnaed mewn perthynas â'r plentyn (er enghraifft, gorchymyn adsefydlu ieuenctid, gorchymyn preswyl awdurdod lleol neu orchymyn goruchwylio gorfodol)
- manylion unrhyw ffactorau risg neu amddiffyn plant sylweddol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys enghraifft o unrhyw berygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, problemau iechyd meddwl neu gorfforol, hanes o ddianc a/neu gysylltiad â'r asiantaethau cyfiawnder ieuenctid.

Byddai'r gofyniad i ddarparu'r manylion asesu llawn a'r cynllun gofal a chymorth o fewn pum diwrnod gwaith yn parhau, yn ogystal â'r angen i atgyfeirio achos y plentyn i banel cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a dim hwyrach na 25 diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gychwyn.

Dim ond i awdurdodau lleol Cymru y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol. Mater i Lywodraeth y DU fyddai newid y ddeddfwriaeth i osod gofyniad tebyg ar awdurdodau lleol Lloegr sy'n lleoli plant yma yng Nghymru, ac mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn gwella trefniadau lleoliadau trawsffiniol. Dylid nodi bod gofyniad newydd hefyd wedi'i gynnwys yn y rheoliadau dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i gartrefi plant yng Nghymru roi gwybod i'r awdurdod lleol yn ddi-oed os ydynt yn derbyn plentyn o'r tu allan i'r ardal honno, gan gynnwys rhai o Loegr. Bydd hyn yn ategiad pwysig, ond yr awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn fydd â'r prif gyfrifoldeb o hysbysu o hyd. Felly, dylai'r newid arfaethedig gael ei weld fel rhan o becyn o fesurau wedi'u cynllunio i sicrhau bod awdurdod lleol yn derbyn hysbysiad amserol a digonol pan fo plentyn o awdurdod arall yn cael ei leoli yn ei ardal.

Bydd angen i Ran 6 o'r Cod Ymarfer adlewyrchu'r newidiadau hyn hefyd, trwy ddiwygio paragraffau 202 i 205. Rydym yn bwriadu newid yr adran hon fel a ganlyn:

**Lleoliadau mewn argyfwng y tu allan i'r ardal**

Os oes angen lleoli plentyn y tu allan i'r ardal ar unwaith oherwydd rhesymau llesiant, dylai'r awdurdod lleol atgyfeirio achos y plentyn i banel cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a dim hwyrach na 25 diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gychwyn.

Cyn lleoli plentyn mewn argyfwng, mae'n **rhaid** i'r swyddog enwebedig fod yn fodlon â'r canlynol cyn cymeradwyo penderfyniad:

- mae dymuniadau a theimladau'r plentyn wedi'u canfod a chael sylw dyladwy
- y lleoliad yw'r lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael yn unol â'r cynllun gofal a chymorth.

Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn roi gwybod i'r awdurdod lleol ym mhle mae'r plentyn wedi'i leoli o fewn 24 awr i gychwyn y lleoliad. Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys:

- enw a dyddiad geni'r plentyn
- a yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol o'i wirfodd neu dan orchymyn gofal neu orchymyn gofal interim
- unrhyw orchmynion gofal eraill a wnaed ac sy'n dal mewn grym mewn perthynas â'r plentyn; unrhyw orchymyn dan Ddeddf Plant 1989, gorchymyn adsefydlu ieuenctid, gofyniad preswyl awdurdod lleol neu orchymyn adsefydlu ieuenctid gyda gofal maeth, neu orchymyn goruchwylio gorfodol neu orchymyn goruchwylio interim)
- manylion unrhyw ffactorau risg neu amddiffyn plant sylweddol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys enghraifft o unrhyw berygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, problemau iechyd meddwl neu gorfforol, hanes o ddianc a/neu gysylltiad â'r asiantaethau cyfiawnder ieuenctid.

Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r manylion canlynol i'r awdurdod ardal o fewn pum diwrnod gwaith i'r lleoliad:

- asesiad o anghenion y plentyn a'r rhesymau pam mai'r lleoliad a ddewiswyd yw'r ffordd fwyaf addas o ddiwallu ei anghenion
- copi o gynllun gofal a chymorth y plentyn os nad yw wedi'i ddarparu'n barod.

Hefyd, rhaid cysylltu â swyddog adolygu annibynnol a rhieni'r plentyn (lle bo'n briodol) o fewn pum diwrnod gwaith.

Mae'n rhaid i baneli sicrhau eu bod yn craffu i'r un graddau ar achosion ôl-weithredol. Mae'n rhaid i'r rhesymau am beidio ag atgyfeirio achos y plentyn i'r panel cyn ei leoli gael eu cofnodi ar ffurf ysgrifenedig a'u cymeradwyo gan uwch swyddog, a rhaid rhoi copi yn ffeil achos y plentyn. Dylai penderfyniad y panel i gadarnhau'r lleoliad neu leoli'r plentyn yn rhywle arall, a'r rhesymau am y penderfyniad, gael eu cofnodi a'u cymeradwyo gan uwch-swyddog yr awdurdod sy'n lleoli'r plentyn. Dylid anfon copi at swyddog arweiniol gwasanaethau plant yr awdurdod sy'n lleoli hefyd.

<u>Rheoliadau Llety Diogel (Cymru) 2015</u>

Mae'r newidiadau drafft i'r rheoliadau hyn yn deillio o newidiadau i adran 25 o Ddeddf Plant 1989 sy'n ymwneud â lleoli plant o Gymru mewn llety diogel yn yr Alban. Cyflwynwyd y newidiadau hyn yn Neddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017.

Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai plant o Gymru sydd angen lleoliad diogel gael hynny yng Nghymru lle bo'n bosib ac yn briodol, neu mewn llety cyfagos yn Lloegr. Fodd bynnag, oherwydd natur arbenigol y lleoliad hwn, efallai y bydd angen sicrhau lleoliadau yn yr Alban o bryd i'w gilydd (ac mewn amgylchiadau eithriadol). Oherwydd hyn, pan gynigiodd Llywodraeth y DU newid adran 25 o'r Ddeddf Plant er mwyn egluro'r sefyllfa pan fo plant o Loegr yn cael eu rhoi mewn llety diogel yn yr Alban, fe wnaeth Gweinidogion Cymru gymeradwyo ymestyn y grym hwn i awdurdodau lleol Cymru hefyd.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau yn newid y diffiniad o 'lety preswyl' i gynnwys llety preswyl yn yr Alban hefyd, er mwyn sicrhau pan fydd awdurdodau lleol Cymru yn lleoli plentyn mewn llety diogel yn yr Alban, y bydd yn destun yr un trefniadau diogelu sy'n berthnasol i leoliadau yng Nghymru a Lloegr.

Ar ben hyn, rydym yn manteisio ar y cyfle i gyflwyno rhywfaint o newidiadau technegol eraill i sicrhau bod y rheoliadau hyn yn gweithio ar draws ffiniau. Mae'r rhain yn egluro sut mae'r rheoliadau yn berthnasol mewn achosion o leoliadau trawsffiniol, boed gan awdurdod lleol Cymru i lety diogel yn Lloegr, neu gan awdurdod lleol Lloegr i lety diogel yng Nghymru.

Bydd angen i ni ddiwygio Rhan 6 o'r Cod Ymarfer i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae fersiwn ddrafft o bennod 7 y cod yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Lleoliadau y tu allan i wledydd Prydain

Ar hyn o bryd, mae Rhan 6 o'r Cod Ymarfer yn gofyn i awdurdodau lleol leoli plentyn y tu allan i wledydd Prydain (h.y. y tu allan i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw) am gyfnod penodol a chyfyngedig yn unig.  Cafodd hyn ei herio mewn penderfyniad diweddar yn yr Uchel Lys (Chwefror 2017) lle derbyniodd y barnwr resymoldeb penderfyniad awdurdod lleol i geisio lleoli plentyn mewn lleoliad gofal maeth hirdymor gyda modryb ar ochr y fam yng Ngweriniaeth Iwerddon.  Rydym yn derbyn, mewn rhai achosion, y dylai awdurdodau lleol gael y disgresiwn i wneud lleoliadau tymor hirach y tu allan i wledydd Prydain os mai dyma sydd orau i'r plentyn, cyn belled bod modd gwneud trefniadau realistig i warchod a hyrwyddo llesiant y plentyn.  Felly, rydym yn newid brawddeg olaf paragraff 214 y cod er mwyn dileu'r cyfyngiad amser ar gyfer lleoliadau o'r fath.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau'r terfynau amser ar gyfer hysbysu lleoliadau y tu allan i'r ardal mewn argyfwng, o bum diwrnod gwaith i 24 awr?

   Ydw / Nac ydw

   Os ateboch chi 'Nac ydw', dywedwch pam.

2. Ydych chi'n credu bod y trefniadau hysbysu newydd ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal mewn argyfwng yn ddigonol?

   Ydw / Nac ydw

   Os ateboch chi 'Nac ydw', dywedwch pam.

3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i Reoliadau Llety Diogel (Cymru) 2015, yn enwedig o ran lleoli plant mewn llety diogel yn yr Alban?

4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein newidiadau arfaethedig i Ran 6 o'r Cod Ymarfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya, yn enwedig y bennod 7 ddiwygiedig (llety diogel)?

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1**

Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau'r terfynau amser ar gyfer hysbysu lleoliadau y tu allan i'r ardal mewn argyfwng, o bum diwrnod gwaith i 24 awr?

Ydw / Nac ydw

Os ateboch chi 'Nac ydw', dywedwch pam

**Cwestiwn 2**

Ydych chi'n credu bod y trefniadau hysbysu newydd ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal mewn argyfwng yn ddigonol?

Ydw / Nac ydw

Os ateboch chi 'Nac ydw', dywedwch pam.

**Cwestiwn 3**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i Reoliadau Llety Diogel (Cymru) 2015, yn enwedig o ran lleoli plant mewn llety diogel yn yr Alban?

**Cwestiwn 4**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein newidiadau arfaethedig i Ran 6 o'r Cod Ymarfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya, yn enwedig y bennod 7 ddiwygiedig (llety diogel)?

**Cwestiwn 5**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐